

Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol

Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 6 Mehefin 2024

Canolfan Tywi, Llandeilo – 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y
Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy-
gadeirydd
Richard Leggett (RL)
Phil Snaith (PS)
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Mo Rapley (MO)
Peter Griffiths (PG)
David Stacey (DS)
Wyn Owen (WO)

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:

Y Cyngorydd Aled Vaughan Owen - Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd (AVO)
Alex Morgan (AM) – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Julie Sweet (JS) – Grŵp Cerdded Cilmaenllwyd
Raymond Davies (RD)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

David Gravelle

**Ymgynghorwyr /
Sylwedyddion:**

Y Cyngorydd Edward Thomas – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Phillip Morgan - Arweinydd Tîm CNC - Rheoli Tir y De-orllewin
Neil G Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored Cyngor Sir Caerfyrddin

Nodyn:

Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae CAMS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (meddalwedd mapio GIS)
Mae LIC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Llywodraeth Cymru

EITEM	CAMAU GWEITH REDU
<p><u>Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Croesawodd MH y fforwm.</p> <p>Darllenodd MH / CF yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.</p> <p>Cyflwynodd MH yr arsylwyr / ymgynghorwyr.</p>	
<p><u>Eitem 2 NEWYDDION YR AELOD CABINET (symudwyd o eitem 3)</u></p> <p>Cyflwynodd MH y Cynghorydd Vaughan Owen</p> <p>Rhoddodd y Cynghorydd Vaughan Owen ragor o wybodaeth i'r fforwm am ei gefndir, ei Gabinet, symudiad hawliau tramwy cyhoeddus yn ddiweddar i fod o dan Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a'i fwriad i fynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol mor aml â phosibl.</p> <p>Eglurodd y Cynghorydd Vaughan Owen hefyd fod Priffyrdd yn aros o fewn Cabinet y Cynghorydd Thomas sef Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, felly bydd y Cynghorydd Thomas yn dal i fod yn arsylwr/ymgynghorydd ar gyfer y Fforwm Mynediad Lleol, gan fynychu cyfarfodydd pan fo'n bosibl iddo wneud hynny.</p> <p>Holodd sawl aelod o'r fforwm ynglŷn â'r rhesymeg o wahanu swyddogaethau Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin rhwng dau gabinet ar wahân.</p> <p>Holodd KB ynglŷn â'r swyddogaethau eraill o fewn Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.</p> <p>Esboniodd y Cynghorydd Vaughan Owen y rhesymeg y tu ôl i hyn a rhoddodd eglurhad.</p> <p>Teimlai JG fod y symudiad yn gwneud synnwyr gan fod hawliau tramwy cyhoeddus yn darparu cyfleoedd trafndiaeth gynaliadwy helaeth.</p>	
<p><u>Eitem 3 – DIWEDDARIAD AR Y PROSIECT GWIRFODDOLI (symudwyd o eitem 2)</u></p> <p>Rhoddodd AC ddiweddariad ar y prosiect parhaus gan dynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cafwyd 137 mynegiant o ddiddordeb yn y prosiect, - 97 o wirfoddolwyr hyfforddedig, gan obeithio cyrraedd 100 yn ddiweddarach ym mis Mehefin, - 7 sesiwn hyfforddi - neilltuwyd 736 o hawliau tramwy cyhoeddus neilltuo ar gyfer arolwg, - 33 o wirfoddolwyr wrthi'n arolygu <p>Cynlluniwyd cysylltiadau cyhoeddus ychwanegol ar gyfer y cyfnod ar ôl yr etholiad i gadw momentwm y prosiect a rhannu llwyddiant, mae'r Cerddwyr eisoes wedi cyhoeddi erthygl ar-lein am y prosiect - AM i rannu'r erthygl gyda'r Fforwm Mynediad</p>	AM

<p>Lleol.</p> <p>Ceisir cyllid ychwanegol i ehangu'r prosiect.</p> <p>Diolch yn arbennig i Amy Goodwin (Swyddog Rhanbarthol y Cerddwyr, Sir Gaerfyrddin) sydd wedi rhedeg prosiect llwyddiannus iawn hyd yn hyn.</p> <p>Holodd MH beth fyddai'n cael ei wneud gyda'r data? Mae'n deall na fydd yn 'bert' ond ei fod yn hanfodol.</p> <p>Esboniodd AM a CF sut y byddai data'n cael ei storio ar wahân i ddata 'byw' sydd eisoes yn cael ei gadw yn CAMS ac y bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion meincnodi, i ddangos y pwysau sydd ar y rhwydwaith ledled y Sir, cyflwr y seilwaith a llywio cynigion y prosiect yn y dyfodol.</p> <p>Mae RL o'r farn ei fod yn brosiect cadarnhaol iawn sydd wedi cymryd llawer iawn o waith paratoi yn y cefndir i'w roi ar waith.</p>	
<p><u>Eitem 4 – CYLCHREDEG/TRAFOD YR ADOLYGIAD CANOL TYMOR DRAFFT O'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (ROWIP)</u></p> <p>Dywedodd CF fod yr Adolygiad Canol Tymor Drafft bron â chael ei gwblhau yn dilyn y penderfyniad i ail-ddrafftio'r ddogfen a gynhyrchwyd gan Gynllun Gofodol Cymru.</p> <p>Unwaith y bydd gwblhau, bydd y drafft yn cael ei gylchredeg i'r aelodau er mwyn iddynt gynnig sylwadau arno.</p> <p>Dylai'r drafft fod wedi'i gwblhau ymhen wythnos, CF i'w gylchredeg.</p>	CF
<p><u>Eitem 5 - ADRODDIADAU AR FATERION</u></p> <p>Roedd adroddiad ar faterion hawliau tramwy cyhoeddus wedi'i gynhyrchu a'i gylchredeg i'r aelodau cyn y cyfarfod.</p> <p>Tynnodd RL sylw at y ffaith fod materion cynnal a chadw wedi'u sefydlogi, ond bod materion cyfreithiol yn parhau i gynyddu. Mae'r wybodaeth ar ffurf tabl sy'n dangos taflwybr a bydd yn cael ei gylchredeg i aelodau.</p> <p>Awgrym ar gyfer agenda mis Medi – crynodeb o'r hyn y mae'r arolygon gwirfoddolwyr yn ei ddangos. Faint o lwybrau a arolygwyd? Cyfradd yr arolwg? Cyflwr cyffredinol?</p> <p>Hysbysodd CF y fforwm mai dyma'r 'adroddiad materion' hawliau tramwy cyhoeddus diwethaf a fydd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Fforwm Mynediad Lleol. Bydd adroddiad chwarterol newydd yn cael ei gynhyrchu. Bydd yr adroddiad newydd yn cynnwys gwybodaeth am fwy o agweddau ar y gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad a sut y mae'n perfformio. I'w ddatblygu dros yr haf gyda'r adroddiad cyntaf yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Mynediad Lleol ym mis Medi.</p> <p>Holodd JG a fyddai modd cyflwyno hen adroddiadau a rhai newydd ar gyfer cyfarfod mis Medi i gymharu data?</p> <p>Dywedodd CF na all Cyngor Sir Gaerfyrddin redeg yr adroddiad materion presennol</p>	RL AM CF

<p>mwyach, rhaid iddo gael ei gynhyrchu gan ddarparwr meddalwedd CAMS. Bydd yn gwneud cais am hynny ond dylai aelodau nodi y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn iddynt roi blaenoriaeth i ddatblygu'r adroddiad newydd.</p>	
<p><u>Eitem 6 - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL</u></p> <p>Bydd CF yn cynhyrchu adroddiad.</p> <p>Rhagwelir y bydd fersiwn ddrafft yn cael ei gylchredeg i'r aelodau erbyn diwedd Mehefin er mwyn iddynt gynnig sylwadau arno.</p>	
<p><u>Eitem 7 – AWGRYMIADAU'R PROSIECT A DIWEDDARIAD AR GYFLEOEDD CYLLIDO</u></p> <p>Ar hyn o bryd mae AM yn canolbwyntio ar brosiect gwirfoddoli.</p> <p>Gofynnwyd i aelodau ailgyflwyno awgrymiadau blaenorol ar gyfer y prosiect i'w hystyried.</p> <p>Caiff arferion cydweithio eu hymgorffori mewn cyfleoedd cyllido cyfredol, ceir posibilrwydd o gydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.</p> <p>Ailadroddodd yr Aelodau bwynt a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol ar bwysigrwydd hyrwyddo, gan dynnu sylw at y gwaith da a wneir.</p>	
<p><u>Eitem 8 – CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</u></p> <p>Diweddariad ar Ddynodiad Dŵr Afon Tywi</p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol.</p> <p>CF i holi ynghylch canlyniad ymholiadau ET.</p> <p>Hawliau nad ydynt yn cael eu cofnodi'n ddigonol</p> <p>Pwnc y gallai'r Cynghorydd Vaughan Owen elwa o'i werthfawrogi/ei ddeall ar gyfer y dyfodol yw'r Map Diffiniol/y galw am Orchymyn Addasu/darpariaeth mynediad aml-ddefnyddwyr gwell.</p> <p>CF i ddarparu crynodeb o'r mater i AVO</p> <p>Polisi Codi Tâl ar y wefan</p> <p>Mae'r polisi i'w gyhoeddi ar-lein yn ystod yr wythnosau nesaf.</p> <p>Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p>Mae Gorchymyn Prynu Gorfodol wedi'i gymeradwyo, nid oes dyddiad cychwyn ar gyfer adeiladu wedi'i gylchredeg hyd yma.</p>	<p>CF</p> <p>CF</p>

EITEM 9 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL

Gwerthoedd Cadwraeth CNC ochr yn ochr â Mynediad

Mynegwyd pryderon mewn perthynas â chynllun rheoli newydd CNC a oedd yn rhoi llai o ffocws ar fynediad a mwy o sylw i gadwraeth.

Darparwyd ymateb e-bost gan Phillip Morgan (CNC) yn esbonio y bydd strategaeth hamdden newydd CNC yn cael ei chyhoeddi yn fuan a bydd yn helpu i egluro sut y mae CNC yn cynnig mabwysiadu unrhyw ffyrdd gwahanol o reoli ei gynnis hamdden ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. Cynigiwyd trafod canlyniadau'r strategaeth hefyd.

Ymgynghoriad Cwmpo Coed CNC

Dywedodd MH y dylid ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol fel rhanddeiliad

Is-grŵp Hyrwyddo a Thwristiaeth y Fforwm Mynediad Lleol

Dywedodd RL fod yr is-grŵp yn parhau i weld canlyniadau cadarnhaol a gwelliannau i hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad yn Sir Gaerfyrddin.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Medi 2024, 1pm

System adrodd ar-lein priffyrdd 'rhoi gwybod am broblem'

Tynnodd SB sylw at y ffaith fod y system Priffyrdd bellach yn caniatáu i bobl roi gwybod am faterion ar Gilffyrdd yn y Sir. Mae hwn yn ddiweddariad newydd sydd i'w groesawu.

CF

Rali Ceredigion

Dywedodd MH fod disgwyl i'r digwyddiad redeg o 30 Awst i 1 Medi gyda rhediadau arbrofol yn digwydd cyn hynny. Byddai'n werth i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol roi gwybod i'w cysylltiadau lleol fel eu bod yn ymwybodol o'r digwyddiad sydd ar ddod.

CF

Bae Parcio Ceffylau Pen-bre

Holodd KB ynghylch y sefyllfa bresennol, a yw'r Gorchymyn yn fyw? A oes camau gorfodi ar waith? Beth yw'r broses gwyno? Pwy fydd yn ei gorfodi? Yr Heddlu?

Darllenwyd diweddariad gan Rheoli Traffig - bydd y Gorchymyn parcio yn dod i rym ar 12 Gorffennaf, gydag arwyddion a marciau yn cael eu darparu bryd hynny neu tua'r un pryd. Bydd gwybodaeth yn mynd ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin maes o law gan gynnwys manylion am y broses ar gyfer gwneud cais am hawlen ar gyfer y bae.

CF

Ymgynghoriadau'r Fforwm Mynediad Lleol

Dywedodd WO nad yw'n derbyn ceisiadau cynllunio
Dywedodd SB nad yw'n derbyn ymgynghoriadau ynglŷn â'r Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus

Dylai'r ddau fod ar yr un rhestrau dosbarthu, CF i wirio hyn.

Tymor y Fforwm Mynediad Lleol

<p>Dywedodd CF fod tymor cyfredol y Fforwm Mynediad Lleol yn dod i ben ar 13 Rhagfyr 2024, bydd y fforwm presennol yn chwalo yn dilyn y cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2024 a bydd y gwaith o recriwtio Fforwm Mynediad Lleol newydd yn cychwyn.</p> <p>JG A allai'r gwaith recriwtio ddechrau'n gynnar er mwyn osgoi cyfnod heb Fforwm Mynediad Lleol gweithredol?</p> <p>Bydd CF yn edrych ar y canllawiau</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben</p>	
<p><u>Eitem 10 – Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>5 Medi 2024, 6pm - Caerfyrddin</p>	